



Newid Rheol

Awdur: **Derek Walker**

i'w **Benderfynu**

1. Crynodeb

Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, cytunodd y bwrdd i gynnig i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni bod ein Rheolau'n cael eu newid i osod terfyn ar nifer y blynyddoedd y gall aelod o'r Bwrdd wasanaethu ar fwrdd y Ganolfan. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r newid arfaethedig i'r rheol y gofynnir i aelodau gytuno arno.

2. Cefndir

Yn dilyn ymarfer arfarnu bwrdd diweddar, argymhellwyd ein bod yn ystyried gosod terfyn ar nifer y blynyddoedd y gall aelod o'r bwrdd wasanaethu ar fwrdd y Ganolfan. Ystyrir ei bod yn arfer da i bennu terfyn. Mae sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys: cyflwyno profiadau gwahanol i'r bwrdd, gan helpu i gynyddu amrywiaeth; a helpu i sicrhau bod pellter priodol rhwng aelodau'r bwrdd a'r tîm gweithredol.

Mae'r bwrdd yn cynnig terfyn naw mlynedd a fydd yn berthnasol i bob aelod o'r bwrdd a etholir yn 2019 ac wedi hynny.

Gan weithio gyda Co-operatives UK, rydym wedi cynnig newid i'r rheolau a amlinellir isod. Mae copi llawn o'r Rheolau ar gael yn: *add link when rules are uploaded*

3. Yr hyn rydym ni'n ei gynnig

Y RHEOL BRESENNOL

Dyma'r rheol bresennol, er mwyn cymharu:



Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

63. Yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf ar ôl mabwysiadu'r Rheolau hyn, bydd yr holl Gyfarwyddwyr etholedig yn ymddiswyddo. Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf, bydd traean o'r Gyfarwyddwyr etholedig, neu os nad oes lluosrif o dri, y nifer nesaf at draean, yn ymddiswyddo. Y Cyfarwyddwyr a fydd yn ymddiswyddo yw'r rhai sydd wedi bod yn eu swydd hiraf ers iddynt gael eu hethol ddiwethaf. Lle mae Cyfarwyddwyr wedi bod yn eu swydd am yr un cyfnod, penderfynir ar y Cyfarwyddwyr sydd i ymddeol ar hap. Bydd Cyfarwyddwr sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ailethol.

Y RHEOL NEWYDD

Mae testun y rheol ddiwygiedig fel a ganlyn:

Cymal diwygiedig

63. Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol, bydd traean o'r Gyfarwyddwyr etholedig, neu os nad oes lluosrif o dri, y nifer nesaf at draean, yn ymddiswyddo. Y Cyfarwyddwyr a fydd yn ymddiswyddo yw'r rhai sydd wedi bod yn eu swydd hiraf ers iddynt gael eu hethol ddiwethaf. Lle mae Cyfarwyddwyr wedi bod yn eu swydd am yr un cyfnod, penderfynir ar y Cyfarwyddwyr sydd i ymddeol ar hap. Bydd Cyfarwyddwr sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ailethol yn amodol ar y rheol sy'n dilyn isod.

Cymal ychwanegol

64. Bydd unigolyn a etholir yn Gyfarwyddwr yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol 2019 y Gymdeithas ac unrhyw gyfarfod cyffredinol blynyddol dilynol, yn gwasanaethu yn ei swydd am gyfnod hwyaf o naw mlynedd yn olynol, pryd y bydd yn ymddiswyddo ac ni fydd yn gymwys i ailsefyll i'w ethol i'r Bwrdd. Wrth benderfynu ar y cyfnod hwyaf mewn swydd, ni fydd gwasanaeth blaenorol cyfarwyddwr ar Fwrdd y Gymdeithas cyn cyfarfod cyffredinol blynyddol 2019 y Gymdeithas yn cael ei ystyried.

4. Argymhelliad

Gofynnir i'r aelodau gytuno ar y newid arfaethedig i'r Rheolau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddydd Mawrth 24 Medi 2019.



Wales **Co-operative** Centre
Canolfan **Cydweithredol** Cymru